

# Mesuryddion deallus ar gyfer busnesau bach a defnyddwyr annomestig llai eraill

Taflen ffeithiau 102

31.03.11

[www.ofgem.gov.uk](http://www.ofgem.gov.uk)

Cyflwyno mesuryddion deallus yw un o'r rhaglenni mwyaf o ran maint a mwyaf cymhleth i'r diwydiant ynni ei chynnal. Bydd dros 50 miliwn o fesuryddion 'mud' yn cael eu newid pan gaiff mesuryddion trydan a nwy cwsmeriaid domestig a safleoedd annomestig llai eu hadnewyddu'n llwyr. Bydd rhaid ymweld â 30 miliwn o gartrefi a safleoedd eraill a bydd yn cymryd tua saith mlynedd i gwblhau'r rhaglen. Bydd Ofgem yn sicrhau y caiff buddiannau cwsmeriaid eu diogelu.

## ► Pam fod y Llywodraeth yn gwneud hyn?

Bydd mesuryddion deallus yn helpu Prydain i newid i economi carbon isel. Byddant yn ein helpu i ymateb i'r her o gael cyflenwad ynni cynaliadwy, fforddiadwy a sicr. Byddant yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr i'w helpu i leihau faint o ynni maent yn ei ddefnyddio, yn ogystal â lleihau costau

gwasanaeth cwsmeriaid cyflenwyr. Yn y sector annomestig llai, caiff 2.2 miliwn o safleoedd trydan ac 1.5 miliwn o safleoedd nwy eu cynnwys yn y broses gyflwyno, gan gynnwys busnesau bach unigol a safleoedd llai sy'n perthyn i fusnesau mwy o faint neu gyrrff sector cyhoeddus.

## ► Beth yw mesurydd deallus a sut y bydd y broses gyflwyno'n gweithio i ddefnyddwyr annomestig?

Bydd gan fesuryddion deallus a ddefnyddir gan ddefnyddwyr annomestig nifer o nodweddion cyffredin allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Gall data gael ei drosglwyddo rhwng y mesurydd a'r cyflenwr ynni neu bartion awdurdodedig eraill
- Gall y cyflenwr ynni ddarllen mesuryddion o bell gan ei gwneud yn bosibl anfon biliau cywir ac amserol
- Y gallu i gysylltu dyfeisiau â'r mesurydd, megis ffôn neu gyfrifiadur
- Byddant yn cefnogi tariffau 'amser y defnydd o ynni', sy'n cynnig lefelau gwahanol o daliadau, yn dibynnu ar bryd y defnyddir yr ynni
- Gall y defnyddiwr droi cyfarpar sydd wedi'i gysylltu â'r mesurydd i ffwrdd yn awtomatig ar amseroedd penodol er mwyn manteisio ar lefelau priso amrywiol
- Gall y cyflenwr ynni alluogi ac analluogi'r cyflenwad trydan o bell
- Pan gynhyrchir trydan ar y safle (megis drwy dyrbin gwynt neu banel solar), gellir mesur unrhyw drydan dros ben a gaiff ei allforio, er mwyn cyfrifo'r Tariff Bwydo i Mewn (y premiwm a delir i ddefnyddiwr gan ei gwmni cyfleustodau) yn gywir.

## ► Beth yw manteision mesurydd deallus o gymharu ag uwch fesurydd a phryd y byddaf i'n cael un?

Bydd gan fesuryddion deallus fwy o swyddogaethau - a swyddogaethau mwy soffistigedig - nag uwch fesuryddion, sy'n gyffredin ar hyn o bryd yn y farchnad annomestig. Dylai'r swyddogaethau ychwanegol wella gwasanaeth a dewis i gwsmeriaid, gan eu helpu i ddefnyddio llai o ynni ac arbed arian.

Bydd rhaid i gyflenwyr gymryd pob cam rhesymol i osod mesuryddion deallus a chyfarpar cysylltiedig ar gyfer eu holl gwsmeriaid annomestig llai, ac eithrio pan fo eithriadau ar gyfer uwch fesuryddion yn gymwys. Mae uwch fesuryddion sydd â'r gallu i ddarparu data trydan bob hanner awr a data nwy bob awr o leiaf, (sydd ar gael i'r cyflenwr ei weld o bell) yn cael eu defnyddio eisoes yn y farchnad hon. Gallant aros, neu gellid

parhau i'w gosod o dan yr amodau canlynol:

- mae uwch fesurydd wedi'i osod cyn mis Ebrill 2014 ac mae'r cwsmer yn dymuno ei gadw; neu
- caiff uwch fesurydd ei osod ar ôl mis Ebrill 2014 o dan drefniadau cytundebol a luniwyd yn flaenorol.

O fis Ebrill 2014, bydd yn rhaid i unrhyw fesurydd a gaiff ei newid neu unrhyw fesurydd newydd gydymffurfio â'r manylebau technegol ar gyfer mesuryddion deallus, ac eithrio uwch fesuryddion ar ôl mis Ebrill 2014 o dan drefniadau cytundebol a luniwyd yn flaenorol. Gall defnyddwyr hefyd wneud cais am fesurydd deallus.

## ► Faint fydd mesurydd deallus yn ei gostio i mi?

Bydd costau mesurydd deallus yn cynrychioli elfen gymharol fach o filiau cwsmeriaid ac mae'r buddiannau'n llawer mwy na'r costau. Amcangyfrif y bydd y buddiant net i gwsmeriaid

annomestig, gan ystyried y costau, yn fwy na £100 y flwyddyn erbyn 2020.

## ► Sut y caf fy niogelu?

Bydd yn rhaid i gyflenwyr gydymffurfio â chod ymarfer sy'n llywodraethu'r broses o osod mesuryddion deallus yn y sectorau domestig ac annomestig. Bydd y cod hwn yn ystyried anghenion penodol defnyddwyr annomestig, er enghraifft o ran sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar y busnes. O ran diogelu defnyddwyr yn gyffredinol, bydd y rhaglen ac Ofgem yn adolygu dulliau

presennol o ddiogelu i weld a oes angen iddynt gael eu diweddarau neu a oes angen cyflwyno rhai newydd. Bydd gan Ofgem, y rheoleiddiwr nwy a thrydan, gyfrifoldeb parhaus i ddiogelu buddiannau defnyddwyr cyn ac yn ystod y broses o gyflwyno'r mesuryddion deallus.

## ► A fyddaf yn gallu newid cyflenwr o hyd?

Byddwch. Un o amcanion dylunio allweddol yw sicrhau bod mesuryddion yn rhyngweithredol - hynny yw, bod y dyfeisiau'n gallu gweithio gyda'i gilydd - sy'n galluogi defnyddiwr i newid cyflenwr. Unwaith y bydd y prif broses gyflwyno'n dechrau yn 2014, bydd manylebau technegol cyffredin ar waith i sicrhau hyn.

Caiff Cwmni Trosglwyddo Data (DCC) ei sefydlu er mwyn sicrhau rhyngweithredu. Os na fydd cyflenwyr yn defnyddio DCC ar gyfer mesuryddion deallus, bydd trefniadau rhyngweithredu masnachol ar waith sy'n diogelu buddiannau defnyddwyr, gan gynnwys y gallu i newid cyflenwr.

## ► Beth yw'r Cwmni Trosglwyddo Data (DCC) newydd ac a fydd yn effeithio arnaf?

Bydd DCC yn rheoli'r data a drosglwyddir i fesuryddion deallus yn y sector domestig a'r data a ddarperir ganddynt. Mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casglid y dylai defnyddio DCC fod yn wirfoddol yn y sector annomestig llai. Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd cyflenwyr sy'n gosod mesuryddion deallus am ddefnyddio gwasanaethau DCC ar gyfer eu cwsmeriaid annomestig a domestig, er efallai y bydd rhai yn dewis

gwneud eu trefniadau eu hunain. Hefyd, dylai DCC allu cynnig gwasanaethau i ddarparwyr uwch fesuryddion.

Bydd y rhaglen mesuryddion deallus yn ystyried a oes angen trefniadau mynediad i ddata penodol ar gyfer defnyddwyr annomestig neu eu darparwyr gwasanaeth. Bydd hefyd yn ystyried a oes gan grwpiau penodol o gwsmeriaid annomestig anghenion gwahanol y mae angen rheolau gwahanol ar eu cyfer.